

CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF

CYLCH *lythyr*

GAEAF 2018



Diolch!

Gyntaf oll, diolch yn fawr iawn i bob un o'n haelodau sydd wedi cynnal adolygiad o'r defnydd o feddyginiaethau anifeiliaid gyda'u milfeddygon yn ystod y misoedd diwethaf, ers i safonau FAWL gael eu diweddarau ym Mehefin. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r ymdrech ychwanegol y mae aelodau a milfeddygon wedi'i wneud. Er bod ychydig broblemau wedi bod yn ystod y broses, credwn ei fod werth y drafferth.

Cyflwynwyd y newid yn y safonau oherwydd twf mewn ymwrthedd gwrthfotig a'r ymdrechion a roddir ar waith i leihau'r bygythiad o'r hyn y cyfeirir ato fel ymwrthedd gwrthficrobaidd, neu AMR yn fyr. Mae'r llywodraeth a meddygon wedi rhybuddio bod AMR yn fygythiad gwirioneddol i iechyd pobl ac mae'n ddyletswydd arnom, er lles cenedlaethau'r dyfodol, gymryd y broblem o ddifrif, neu fel arall y nhw fydd yn talu'r pris pan fyddant yn colli'r opsiwn o ddefnyddio'r meddyginiaethau hyn.

Er mai gorddefnyddio gwrthfotigau gennym ni, bobl sydd yn cael ei ystyried fel achos AMR, dadleuir hefyd bod defnydd helaeth o gyffuriau gwrthfotig mewn amaethyddiaeth wedi cyfrannu at y broblem. Mae'r bai yn hyn o beth, fel arfer, wedi'i bwyntio at y sectorau porc a dofednod. Yn anffodus, pan mae WLBP wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill, boed yn llywodraeth neu'n fanwerthwyr ac yn awgrymu nad yw cynhyrchwyr cig eidion a chig oen yn defnyddio cyffuriau gwrthfotig i unrhyw raddau tebyg i sectorau eraill, gofynnir i ni 'brofi hynny'. Yn anffodus, ychydig iawn o dystiolaeth sydd gennym i gefnogi ein dadl, felly mae WLBP yn gwneud dau beth.

Yn gyntaf, rydym wedi gofyn i aelodau adolygu eu defnydd o wrthfotigau gyda milfeddygon, gyda'r bwriad o'i leihau ymhellach er mwyn i ni allu dweud bod ein haelodau yn rhagweithiol ac yn cymryd y

broblem o ddifrif. Yn ail, rydym wedi sefydlu gwefan Cofnodion Fferm y gall aelodau ei defnyddio i gofnodi'r defnydd o bob meddyginiaeth, gan gynnwys defnyddio cyffuriau gwrthfotig. Mae'r wefan yn gyfrinachol i aelodau unigol, ond yr hyn sy'n bwysig yw y gallwn goladu data at ei gilydd er mwyn casglu dystiolaeth am faint o wrthfotigau sy'n cael eu defnyddio'n gyffredinol. Bydd y data cyffredinol hwnnw'n ddefnyddiol nid yn unig i ddangos i'r llywodraeth, i gwsmeriaid ac i fanwerthwyr beth yw union lefel y defnydd o wrthfotigau ar ffermydd da byw yng Nghymru, ond bydd hefyd yn ein galluogi i egluro i'n haelodau beth yw'r lefel gymharol o ddefnydd ar ffermydd tebyg er mwyn i ni allu meincnodi ffermydd o gefndiroedd tebyg a rhannu'r wybodaeth honno gydag aelodau.

Felly diolch yn fawr unwaith eto am gymryd rhan yn yr adolygiad blynyddol a dyma wahoddiad arall i chi gyd ymuno â'r nifer helaeth o aelodau sydd eisoes yn defnyddio Cofnodion Fferm WLBP, i wneud hynny hefyd. Gallwch ddod o hyd iddo ar <https://farmrecords.wlbp.co.uk/WLBP/Default.aspx> neu cysylltwch â Llŷr Lewis neu Sion Ifans ar 01970 636688.



Digwyddiad hyfforddiant i Filfeddygon ynghylch ar Adolygiad Iechyd a Lles a gynhaliwyd ym mis Hydref.

Cadw golwg ar fy statws FAWL



Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Medi 2018 fe gafodd y system sydd yn caniatáu i bobl allanol i gadarnhau statws aelodau FAWL ei wirio 167,178 o weithiau. Mae'r system hwn ar-lein (FAWL web checker) ac ar gael i unrhyw un sydd yn cofrestru i'w ddefnyddio.

Fe gaiff y gwirydd ar-lein yma ei ddefnyddio gan farchnadoedd da byw, lladd dai, canolfannau casglu, arwerthwyr amaethyddol ac awdurdodau lleol. Mae'r busnesau yma yn ei ddefnyddio ar gyfer gwirio statws FAWL aelodau ac maent yn ei ystyried fel modd pwysig o sicrhau fod

y da byw sydd yn cael ei prynu ganddynt yn dod o ffermydd sydd yn aelodau o gynllun FAWL.

Fe all arwerthwyr amaethyddol ddefnyddio'r gwirydd yma pan fod aelodau FAWL yn dymuno prynu deunydd rheoli plâu/fermin. Un o fanteision o fod yn aelod o gynllun FAWL i'w fod yr Ymgyrch Defnyddio Llygodladdwyr yn Gyfrifol (CRRU) yn rhoi cydnabyddiaeth i aelodau sydd yn cydymffurfio a safonau FAWL. Mae hyn yn golygu nad oes angen i aelodau cynllun FAWL i gymryd rhan mewn cwrs er mwyn bod yn cymwys i brynu deunydd rheoli plâu/fermin.

Er mwyn cadw'r system wiro yn gyfredol mae'n bwysig fod aelodau yn rhoi gwybod i'r swyddfa FAWL o unrhyw newidiadau i'r busnes e.e rhif daliad newydd/ychwanegol neu newid yn yr enw masnachu.

Swyddfa FAWL: 01970 636688 info@fawl.co.uk
Gwirydd ar-lein: www.fawl.co.uk

Buches Odro yn manteisio ar adnodd Cofnodion Fferm

Mae gan Rhys Morgan a'i fam, Mary fuches odro ar Fferm Tynbeili, Llanrhystud ger Aberystwyth.

Mae 187 o wartheg godro Holstein a Ayrshire pedigri a 90 stoc ifanc yn Nhynbeili. Mae'r fuches yn cael ei godro ddwywaith y dydd mewn parlwr godro crog uchel 10/20. Mae'r gwartheg yn cael eu cadw y tu mewn yn ystod y gaef a thu allan yn ystod misoedd yr haf ac mae ganddynt batrwm lloia trwy'r flwyddyn. Mae'r gwartheg cadw i gyd yn cael eu bridio ar y fferm. Ar gyfartaledd, mae'r fuches yn cynhyrchu 8800lt i bob buwch bob blwyddyn ac mae'r holl laeth yn cael ei werthu i brif laethdy cydweithredol Cymru, Hufenfa De Arfon.



Ers Chwefror 2018, mae Rhys wedi manteisio ar adnodd Cofnodion Fferm ar-lein WLBP sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer holl aelodau FAWL a'r cynllun gwarant Cynnyrch Llaeth.

Cyn hyn, roedd Rhys yn defnyddio papur ac excel i gofnodi gwybodaeth a chofrestru symudiadau, genedigaethau a marwolaethau ar wefan y BCMS. Dywedodd Rhys:

'Roeddwn am ganoli fy holl gofnodion fferm mewn un lle. Clywais fod modd i Gofnodion Fferm WLBP wneud fy holl gofnodion cydymffurfiaeth gan gynnwys fy nghofrestr buches a fy llyfr meddyginiaeth.'

'Roedd dechrau ar y cyfan yn hawdd gan fod modd i mi fewnforio holl wybodaeth y fuches o BCMS. Roedd Llŷr Lewis hefyd wrth law i fy nghynorthwyo o'r dechrau ac mae ar gael pan fydd gennyf gwestiwn ynghylch y system.'

'Drwy gysylltu â BCMS, gallaf gofrestru fy holl symudiadau, genedigaethau a marwolaethau'n uniongyrchol ar wefan y Cofnodion Fferm. Mae yna'n cwblhau fy llyfr buches ar-lein yn ogystal ag anfon y wybodaeth at BCMS.'

Mae Rhys hefyd yn defnyddio ap Stock Move Express sydd wedi ei gysylltu â Cofnodion Fferm WLBP. Mae'r ap yn caniatáu i ddefnyddwyr fewnbynnu cofnodion ar-lein neu all-lein pan fyddant ar y fferm.

Mae Rhys yn ystyried hyn i fod yn fantais fawr:

'Mae'r ap yn ddefnyddiol iawn. Rwy'n gwneud 80% o fy nghofnodi ar yr ap mewn amser go iawn pan fyddaf ar y fferm, yn enwedig wrth gofnodi symudiadau a mewnbynnu pryniannau meddyginiaethau a thriniaethau. Mae hyn yn arbed llawer o amser gan ei fod yn gweithio allan y cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd a'r dyddiad ar fy nghyfer. Rwy'n dueddol o ddefnyddio'r wefan pan fyddaf yn cofrestru genedigaethau gan fod modd i mi fewnbynnu mwy nag un anifail ar yr un pryd a gweld fy nghofnodion.'

Cred Rhys fod Cofnodion Fferm WLBP wedi bod yn fantais fawr i fusnes y teulu ac mae wedi ei ddarparu ag offer cofnodi sy'n hawdd i'w defnyddio ac sy'n gymorth i gydymffurfio â gofynion statudol rhedeg menter cynnyrch llaeth.

'Pan fydd arolwg ar y fferm, gallaf naill ai ddangos fy nghofnodion ar-lein neu allforio gwybodaeth o'r system os bydd angen gan fy mod eisoes wedi mewnbynnu'r cofnodion yn ddyddiol ar y fferm. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddulliau o ffermio yn cynyddu ac mae'n gyfrifoldeb ar y diwydiant i ddarparu tystiolaeth sydd yn dangos amaethu cyfrifol. Mae'r system yma yn fy nghaniatáu i ddarparu gwybodaeth gyfredol sydd yn y pen draw yn darparu sicrwydd. Mae'r defnydd o feddyginiaethau o fewn amaethyddiaeth o dan y chwydd wydr ac mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gallu dangos ein bod yn defnyddio'r hyn sydd ar gael yn gyfrifol.'

Mae Rhys yn edrych ymlaen at weld y cynllun newydd a'r diweddariad i Gofnodion Fferm WLBP a bydd yn parhau i ddefnyddio'r adnodd sydd ar gael iddo drwy fod yn aelod o WLBP.



Am ragor o wybodaeth ynghylch adnodd Cofnodion Fferm WLBP, cysylltwch â'n cydlynwyr:
Llŷr Lewis – 07741 549270 llyrl@wlbpc.co.uk
Sion Ifans – sionifans@wlbpc.co.uk

Ffair Aeaf Frenhinol Cymru 2018

Bydd gennym stondin yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru yn Llanelwedd unwaith eto eleni, ar 26 a 27 Tachwedd. Mae'r stondin wedi ei lleoli ar y balconi sy'n edrych dros gylch y gwartheg – rhif stondin 271. Bydd cyfle ar y stondin i chi greu cyfrif ar yr adnodd Cofnodion Fferm ar-lein ac i weld sut allai'r system fod o fantais i'ch busnes. Cofiwch alw heibio i gwrdd â ni!



WLBP – Gwefannau Cymdeithasol



Dilynwch ni: @WLBProducers



Hoffwch ni:
Cofnodion Fferm WLBP Farm Records



Dilynwch ni: WLBProducers

Diweddariadau Cofnodion Fferm

Wrth i ni eich annog chi fel aelodau WLBP i gymryd mantais o feddalwedd fferm Cofnodion Fferm sydd ar gael yn arbennig ar eich cyfer drwy fod yn aelod o naill ai FAWL, y Cynllun Organig Cymru neu'r Cynllun Gwarant Ffermydd Llaeth, rydym o hyd yn edrych am ffyrdd i wella a diweddarau'r feddalwedd a hynny'n seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.

Cynllun newydd

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd cynllun yr adnodd Cofnodion Fferm yn cael ei ddiweddarau. Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys gwelliant i hygyrchedd nodweddion tebyg i gyrchu eich Cofrestr Fuches neu'ch Llyfr Diadell. Bydd y cynllun newydd yn cynnwys tabiau a fydd yn eich cyfeirio'n glir at yr hyn y bydd eu hangen i chi eu gwneud fel y gwelir isod.

Bydd hefyd fideos i'ch cynorthwyo ar dudalen gartref y Cofnodion Fferm a fydd yn darparu canllaw ar gyfer agweddau amrywiol yr adnodd.



Cofnodion Meddyginiaethau a Chynllun Iechyd Anifeiliaid

Mae'r cofnodion meddyginiaethau (pryniannau a thriniaethau) ar Cofnodion Fferm yn awr wedi eu cysylltu â'r Cynllun Iechyd Anifeiliaid. Golyga hyn y bydd y cofnodion meddygol perthnasol yn cael eu mewnbynnu unwaith ac yna'n cael eu cynnwys yn y llyfr meddyginiaeth a'r Cynllun Iechyd Anifeiliaid. Mae hyn yn osgoi dyblygu gwybodaeth. Mae yna hefyd adnodd i fewnforio triniaethau meddygol o'ch cofnodion meddygol yn yr adolygiad Iechyd a Lles Blynyddol a fydd yn cael ei gwblhau ar y cyd â'ch milfeddyg.

Llyfr Rheolaeth FAWL


Mae fersiwn ar-lein o Lyfr Rheoil FAWL ar gael naill ai i'w gwblhau ar-lein neu i'w lawr lwytho a'i argraffu fel copi glân. Os yw'ch cofnodion meddygol yn cael eu cwblhau trwy Gofnodion Fferm, mae'r fersiwn ar-lein o Lyfr rheoli FAWL yn cael ei gwblhau'n awtomatig yn yr adran berthnasol.

Mae yna hefyd opsiwn i lawrlwytho copi glân o'r adolygiad Iechyd a Lles blynyddol os oes angen.

Diweddariad ap iPhone ar Stock Move Express

Mae fersiwn 2.2 o Stock Move Express ar gyfer Apple iOS yn awr ar gael ar gyfer defnyddwyr i'w lawrlwytho neu i'w ddiweddarau drwy Siop App Apple. Mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr tansgrifio premiwm gofnodi a gweld grwpiau pwysau a rheoli.

Os oes angen rhagor o wybodaeth amoch neu gymorth â'r adnodd Cofnodion Fferm, cysylltwch â **Llyfr Lewis** ar [07741 549270](tel:07741549270)/llyfrl@wlbpcy.org neu **Sion Ifans** sionifans@wlbpcy.org



Diweddariad i Aelodau Organig

HYSBYSEBION: Os oes gan unrhyw un o'n haelodau organig le pori dros dro ar gael yna gallwch osod hysbyseb yn adran ddsbarthiadol gwefan Cynllun Organig Cymru ar www.welshorganic.co.uk drwy gysylltu â Lorna neu Nicola yn QWFC ar **01970 636688**. Gallwch osod hysbyseb ar unrhyw eitem organig perthnasol arall os hoffech, yn rhad ac am ddim.

TYSTYSGRIFAU ORGANIG: Un o'r materion y mae angen i staff QWFC ei wneud cyn cyflwyno tystysgrifau organig yw sicrhau bod mapiau aelodau wedi eu diweddarau ac yn berthnasol i'r fferm gyfan. Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf pan fyddwn yn gofyn amdano.

YMHOLIADAU: Os oes gan unrhyw un o'n haelodau organig unrhyw ymholiadau ynghylch Cynllun Organig Cymru, byddai'n well petaech chi'n ffonio swyddfa QWFC yn hytrach na chysylltu ag un o'n haseswyr. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch **01970 636688**.



Barod ar gyfer FAWL:

- Stoc i'w gweld
- Adolygiad Iechyd a Lles blynyddol wedi ei ddiweddarau gan y milfeddyg
- Storfa meddyginiaethau wedi ei gloi ac yn gyfredol?
- Sicrhau bod y tanc tanwydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Olew Cymru
- Adnoddau da byw ar gael i'w gweld ac mewn cyflwr da
- Llyfr Cofnodion Rheoli FAWL wedi ei ddiweddarau?
- Y Gofrestr Fuches/Ddiadell a Chofnodion meddyginiaethau wedi eu diweddarau?
- Derbynebaw Bwyd a Gwastraff Plastig
- Tystysgrifau (NPTC/NSTS/Awdurdodi Cludiant)
- Storfa bwydydd anifeiliaid a Pholisi Rheoli Fermin

*Dyma ganllaw i chi ar gyfer paratoi ar gyfer archwiliad FAWL.
Noder y bydd yr asesiad yn mynd trwy'r holl safonau sydd o fewn y cynllun.*

*Os oes gennych ymholiadau, mae croeso i chi
gysylltu â ni yn y swyddfa: 01970 636688*